# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar
## nos Lun 21ain o Dachwedd 2016 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Simon Jones, Peter Parker, Ieu Thomas, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones

1. Clwb Pêl-droed Tywyn a Bryncrug

Bu i'r Cadeirydd groesawu dau gynrychiolydd o glwb Pêl-doed Tywyn a Bryncrug i'r cyfarfod. Cafwyd grynodeb o sefyllfa ariannol y clwb a sefyllfa y tîm o ran chwaraewyr.

O ran chwaraewyr:
-y clwb angen mwy o chwaraewyr ifanc
-y clwb methu cadw pob chwaraewr, gan bod nifer o glybiau cyfagos yn denu y gorau
-cystadleuaeth i ddenu chwaraewyr, gyda rhai clybiau yn talu chwaraewyr
-y clwb methu cynnal dau dîm oherwydd diffyg chwaraewyr
-chwaraewyr yn cyfrannu'n ariannol drwy dalu tâl aelodaeth
-lefel diddordeb wedi lleihau, gyda trafferth ar adegau i anfon tîm cyfan ar y cae

Yn ariannol:
-nifer isel o gefnogwyr yn mynychu gemau ac yn talu ffi i wylio
-angen mwy o fusnesau i noddi'r clwb, yn ddibynnol ar yr un busnesau ers blynyddoedd
-y clwb wedi gwneud colled dros y ddwy flynedd diwethaf
-y clwb yn gyfrifol am dalu costau dyfarnwyr
-cost pob gêm yn £110 os oes angen dau llinellwr a dyfarnwr
-cost £40 y gêm i logi'r cae a'r pafiliwn
-costau teithio chwaraewyr i gemau oddi-cartref, er bod nifer yn dewis peidio â chymryd cyfraniad
-costau uchel o ran gorfod cynnal y cyfleusterau safon y cynghrair
-ffenestri wedi malu yn ddiweddar yn y gwynt a rheiliau wedi pydru
-disgwyliad gan y cynghrair bod clybiau yn buddsoddi yn y cyfleusterau dros gyfnod o amser
-yn edrych ar sefyllfa y clwb dros gyfnod o dair blynedd

Cafwyd trafodaeth am y swm sy'n ddyledus gan y clwb i'r Cyngor am ddefnydd o'r cae a bu i'r clwb dalu £600.

Am oddeutu 7:52 pm, bu i'r cynrychiolwyr adael y cyfarfod. Rhoddwyd gair o ddiolch gan y Cadeirydd i'r Clwb Pêl-droed am fynychu'r cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr i'r clwb yn cynnig lleihau'r swm taladwy am logi'r cae a'r pafiliwn o £40 y gêm i £30 y gêm, gyda'r clwb i fod yn gyfrifol am y trydan.

2. Ymddiheuriadau: Pob Cynghorydd yn bresennol

3. Datgan diddordeb: Dim

4. Derbyn cofnodion 19 Medi 2016

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion, gyda'r cofnodion i'w anfon allan cyn y cyfarfod.

5. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101515 | £12.00 |
| Online Playgrounds | Cae Chwarae | 101516 | £194.00 |
| JK Jones | Torri gwair | 101517 | £960.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r uchod. I gysylltu gyda Cyllid a Thollau a Major & Evans ynglŷn a'r anfoneb talu wrth ennill.

6. Adolygu a mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y Rheoliadau Ariannol.

7. Comisiwn Ffiniau i Gymru - Arolwg 2018 Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Cynigion Cychwynnol:

   **PENDERFYNIAD:** I ysgrifennu llythyr yn datgan gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Bryncrug o'r bwriad o dorri ardaloedd etholaethol a gadael y Bala, sydd wedi bod ym Meirionnydd mewn etholaeth arall er mwyn cael ffigurau etholaethau yn hafal .

8. Un Llais Cymru - Datganiad gan Lywodraeth Cymru - Y diweddaraf ar Ddiwygio Llywodraeth Leol:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Un Llais Cymru - Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Drafft Blynyddol:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

10. Eluned Morgan AC - Arolwg Datblygu Cymunedol:

    **PENDERFYNIAD:** Y Clerc a'r Cynghorydd Bethan Lawton i'w gwblhau.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - 11 Maes y Grug (NP5/55/59A):

    **PENDERFYNIAD:** Dim sylw ar y cais.

12. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad - Cau bythod teleffon:

    **PENDERFYNIAD:** Gwrthwynebu cau bythynnod yn ardal Cyngor Cymuned Bryncrug, gan nad yw pawb yn berchen ar ffôn symudol a nid oes "signal" ym mhob man.

13. Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Trethi - Gwerth Ardrethol Drafft:

    **PENDERFYNIAD:** Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddynt ail-edrych ar trethi'r Pafiliwn.

14. Cyngor Gwynedd - Adran Rheoleiddio - Newid yn Nhrefniant Ad-daliad Costau Cynnal Llwybrau Cyhoeddus:

    **PENDERFYNIAD:** Parhau i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd er mwyn cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

15. Cais Ariannol - Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen:

    **PENDERFYNIAD:** I beidio rhoi rhodd ariannol tuag at cynnal yr Eisteddfod.

16. Hunaniaith -Digwyddiad - Pa mor gadarn ydy'r Gymraeg yn eich cymuned chi?:

    **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

17. BDO - Cyfrifon 2015/16 - Derbyn Adroddiad yr Archwilydd Allanol:

    Derbyniwyd llythyr oddi-wrth gwmni BDO yn cynnwys adroddiad, gyda'r materion canlynol ar gyfer sylw'r Cyngor:
    -gosod a cofnodi cyllideb i gefnogi'r bresept
    -cofnodi'r cais am bresept yng nghofnodion y Cyngor
    -monitro'r gyllideb yn ystod y flwyddyn
    -dylid ysgrifennu llythyr yn flynyddol yn penodi Archwilydd Mewnol
    -dylid cofnodi penodi Archwilydd Mewnol yn y cofnodion
    -mân gamgymeriadau yn y ffurflen
    - blwch cyfeirnod heb ei lenwi

    **PENDERFYNIAD:** I dderbyn a chymeradwyo'r ffurflen flynyddol. I dderbyn y wybodaeth a nodwyd gan BDO, gyda'r Clerc i ail-edrych ar y ffurflen a pharatoi ar gyfer ffurflen 2016/17.

18. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nid oedd dim i'w nodi.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

**19.** Adroddiad y Cynghorydd Sir**:**

Nid oedd dim i'w nodi.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

20. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod baw ci yn ddrwg mewn sawl lle yn y Pentref.

Trafodwyd y llwybr beicio Tywyn – Bryncrug ac adroddwyd pryder am dri "black and white bollards" gyferbyn â Ynysymaengwyn sydd wedi disgyn.

**PENDERFYNIAD:**
Ysgrifennu at Swyddog Cŵn Cyngor Gwynedd yn nodi problem baw cŵn.
Ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn i'r Cyngor atgyweirio'r bollards.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:50pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................